



David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

29 Ebrill 2015

Annwyl David

Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog: Cyfarfod ar 13 Mawrth 2015

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 2 Ebrill sy'n nodi manylion pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn dilyn y cyfarfod y bŵm i'n bresennol ynddo ar 13 Mawrth 2015 i drafod rôl Llywodraeth Cymru o ran diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg ynghyd â'r broses ar gyfer penodiadau cyhoeddus pwysig yng Nghymru, a chraffu arnynt.

Rwyf am ymateb i'r materion a godwyd yn y drefn y maent yn ymddangos yn eich llythyr.

1. Rôl Llywodraeth Cymru wrth ddiogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg

Cymorth Ariannol

Ar gais y Pwyllgor, rwy'n darparu isod fanylion y modd y dyrennir y cyllid o dan bob llinell gyllideb ar gyfer yr iaith Gymraeg.

Y Gymraeg (BEL 6020)

Diben **BEL 6020** yw ategu nodau Strategaeth y Gymraeg *laith Fyw: laith Byw* a'r datganiad polisi *laith fyw: iaith byw - Bwrw Mlaen* sef:

- Hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
- Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
- Cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- Cynyddu a gwella gwasanaethau Gymraeg i ddinasyddion
- Cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith

Maes cefnogaeth	Gwariant sydd wedi ymrwymo a gwariant dangosol o fewn 2015-16	Manylion y dyraniad								
Grantiau i sefydliadau Cymraeg	£4,122,151	<p>Cyfanswm yr arian grant i sefydliadau Cymraeg, fel yr Eisteddfod Genedlaethol, Urdd Gobaith Cymru a Mentrau Iaith, i hyrwyddo'r iaith. Yn 2015-16 bydd pob Menter Iaith yn derbyn cyllid sylfaenol yn seiliedig ar £3.45 fesul siaradwr Cymraeg (ac eithrio Gwynedd lle mae'r arian wedi'i gapio) a bydd pob Menter yn derbyn o leiaf £ 60,000.</p> <p>Mae'r ffigur hwn wedi'i rannu fel a ganlyn:-</p> <table border="0"> <tr> <td>Addysg a Hyfforddi</td> <td style="text-align: right;">£35,140</td> </tr> <tr> <td>Mentrau Iaith</td> <td style="text-align: right;">£2,289,567</td> </tr> <tr> <td>Y Gymuned</td> <td style="text-align: right;">£832,541</td> </tr> <tr> <td>Plant a phobl ifanc</td> <td style="text-align: right;">£964,903</td> </tr> </table>	Addysg a Hyfforddi	£35,140	Mentrau Iaith	£2,289,567	Y Gymuned	£832,541	Plant a phobl ifanc	£964,903
Addysg a Hyfforddi	£35,140									
Mentrau Iaith	£2,289,567									
Y Gymuned	£832,541									
Plant a phobl ifanc	£964,903									
Grantiau Papurau Bro	£87,010	Wedi'i gymeradwyo i 51 o Bapurau Bro yn 2015-16.								
Grantiau Bwrw Mlaen	£300,230	Wedi'i gymeradwyo i 12 sefydliad ar draws Cymru yn 2015-16. Cyfle untro am arian oedd hwn, a gynigiwyd drwy'r datganiad polisi Bwrw Mlaen.								
Grant Technoleg a Chyfryngau Digidol	£270,000	Hon yw'r flwyddyn olaf o ymrwymiad tair blynedd i ariannu prosiectau i hybu a hwyluso defnydd o'r iaith trwy dechnoleg a chyfryngau digidol. Dyfarnwyd 10 grant yn 2015-16.								
Ymchwil	£55,500*	Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer gwerthuso'r strategaeth iaith, iaith fyw: iaith byw; yr arolwg cenedlaethol; ac aelodaeth Llywodraeth Cymru o'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol.								
Cefnogi Partneriaid Cymunedol	£48,000*	Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant a chymorth ar gyfer partneriaid a ariennir trwy grantiau.								
Marchnata	£80,000*	Gan gynnwys marchnata sy'n gysylltiedig â iaith fyw: iaith byw ac ymgyrch y Pethau Bychain.								
Tribiwnlys y Gymraeg	£50,000*	Costau rhedeg ar gyfer y flwyddyn lawn gyntaf o waith y Tribiwnlys 2015-16.								
Plant a Phobl Ifanc	£825,400*	Mae hyn yn cynnwys prosiectau a gyflawnir gan gontractwyr; TWF sy'n cefnogi dwyieithrwydd plant o'r dechrau'n deg, a PCAI (Prosiect Cefnogi Arferion Iaith) sy'n cefnogi newid arferion iaith o fewn ysgolion a thu								

		hwnt i gatiâu'r ysgol.
--	--	------------------------

* Gwariant dangosol yw'r ffigurau hyn a chânt eu hystyried ymhellach. Telir pob gwariant o'r cyllidebau sydd ar gael.

Comisiynydd y Gymraeg (BEL 6021)

Diben **BEL 6021** yw ariannu swydd Comisiynydd y Gymraeg. Mae gan y Comisiynydd swyddogaethau a phwerau eang sy'n cynnwys:

- gweithio tuag at sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- gosod dyletswyddau ar bersonau sydd o fewn cwrmpas y Mesur i gydymffurfio â safonau'n ymwneud â'r Gymraeg
- cynnal ymchwiliadau i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd
- ymchwilio i achosion honedig o ymyrryd â rhyddid unigolyn i gyfathrebu ag unigolyn arall yn Gymraeg
- hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig yn y trydydd sector a'r sector preifat

Cymorth grant Comisiynydd y Gymraeg	£3,390,000	Y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer 2015-16
--	-------------------	--

Y Gymraeg mewn Addysg (BEL 5164)

Pwrpas cyllideb y Gymraeg mewn Addysg (BEL 5164) yw cefnogi gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac mae'r gyllideb yn cefnogi gweithgaredd yn y meysydd canlynol:

- cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg;
- darparu hyfforddiant i ymarferwyr drwy'r Cynllun Sabothol a Grant y Gymraeg mewn Addysg;
- darparu hyfforddiant Cymraeg drwy gyrsiau Cymraeg i oedolion a Chymraeg ail iaith;
- comisiynu adnoddau addysgu a dysgu;
- ymgymryd â gwaith ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r Strategaeth.

Isod darperir dadansoddiad o gyllideb 2015-16

Llinell Cyllideb	Cyllideb 2015-16	
Cynllunio a phrif-ffrydio	£2.684m	Mae'r dyraniad hwn yn cynnwys cyllid grant i Mudiad Meithrin, Sgiliaith a'r Pencampwyr Dwyieithog o fewn y sector Addysg Bellach a'r sector dysgu seiliedig ar waith. Mae'r gyllideb hon hefyd yn cefnogi ymchwil, gwerthuso a gweithgaredd marchnata i gefnogi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
Cymraeg i Oedolion	£9.176m	Cyllid rheolaidd Cymraeg i Oedolion, sy'n ariannu

		cyrsgiau ar draws Cymru.
Sgiliau Ieithyddol	£2.271m	Yn cynnwys prosiectau i roi ar waith y cynllun gweithredu Cymraeg fel Ail Iaith ac arian grant i ddatblygu'r rhaglen Cymraeg i Oedolion.
Adnoddau Diagnostig	£0.043m	Cyllid i gynnal a hybu offeryn diagnostig sgiliau Cymraeg ar-lein.
Hyfforddiant i ymarferwyr	£1.795m	Yn cynnwys y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg; hyfforddiant methodoleg iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr ysgolion a cholegau addysg bellach; a rhaglen hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar.
Comisiynu adnoddau	£2.630m	Mae'r dyraniad hwn yn cefnogi comisiynu adnoddau Cymraeg a dwyieithog i ddysgwyr er mwyn cefnogi addysgu a dysgu Cymraeg fel pwnc, yn ogystal â phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.
Cyfanswm y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb	£18.599m	

Gofynnodd y pwyllgor hefyd am wybodaeth benodol am y ffrwd ariannu addysg cyfrwng Cymraeg ac am ddadansoddiad sy'n dangos sut mae hyn wedi cynyddu neu wedi gostwng. Mae'r tabl isod yn dangos y gyllideb i ddarparu'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg dros 5 mlynedd, 2011-16.

	2011-12 (£m)	2012-13 (£m)	2013-14 (£m)	2014-5 (£m)	2015-16 (£m)
Gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg	12.377	16.212	16.212	21.006	18.599

Mae'r gyllideb yn amrywio ar draws y blynyddoedd yn sgil trosglwyddo cyllidebau a rhaglenni rhwng adrannau wrth i gyfrifoldebau a blaenoriaethau newid.

Er enghraifft, trosglwyddwyd £9.867m o'r Camau Addysg Ôl-16 i gyllido Cymraeg i Oedolion er mwyn symleiddio'r broses ar gyfer y sector; a throsglwyddwyd £5.13m o'r hyn sy'n weddill weddill o'r Grant Cymraeg mewn Addysg i'r Cam Gweithredu Safonau Addysg er mwyn creu'r Grant Gwella Addysg newydd ar gyfer ysgolion.

Fodd bynnag, ar sail tebyg am debyg, mae'r gyllideb wedi gostwng £600,000 rhwng 2014-15 a 2015-16.

Gan fod y Gymraeg yn thema drawsbynciol, yn ychwanegol at y dyraniad cyllideb hwn, mae adrannau a changhennau eraill o fewn yr Adran Addysg a Sgiliau yn cefnogi datblygiad y

Gymraeg o fewn y system addysg. Er nad yw'n hawdd ei fesur, mae cyfanswm y cymorth ariannol ar gyfer y Gymraeg mewn addysg yn sylweddol uwch.

Mewn ffordd debyg, mae adrannau eraill yn cynnwys gwariant ar y Gymraeg yng nghydestun eu meysydd polisi eu hunain.

Prif-ffrydio

O ran prif-ffrydio'r iaith, mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswyddau statudol ar Weinidogion Cymru i ystyried effaith eu penderfyniadau ar yr iaith Gymraeg. Bydd y Safonau Llundain Polisi yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried o'r dechrau sut mae penderfyniadau polisi yn effeithio ar yr iaith, boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol, fel bod penderfyniadau yn hyrwyddo ac yn cefnogi ei defnydd cynyddol o fewn meysydd portffolio. Mae'n rhaid i Weinidogion fod yn gwbl ymwybodol o'r ddyletswydd hon pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau: felly mae'n ofynnol i adrannau Llywodraeth Cymru gynnal asesiadau effaith er mwyn dangos bod ystyriaethau o ran yr iaith Gymraeg wedi'u nodi ac y gweithredwyd ar eu sail.

I'r perwyl hwn lansiwyd fframwaith Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg (WLIA) ym mis Medi 2014, yng ngoleuni dyfodiad y Safonau ac i sicrhau penderfyniadau polisi ansawdd uchel sy'n ystyried effeithiau ar yr iaith. Mae'r fframwaith yn cynnwys canllawiau manwl i staff i sicrhau bod ystyriaethau ynghylch yr iaith Gymraeg yn rhan ganolog o benderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys deddfwriaeth, y defnydd o bwerau statudol, datblygiadau polisi a datganiadau, cynlluniau grant, strategaethau, contractau ac ymchwil. Gan fod y fframwaith yn dal yn gymharol newydd, caiff ei adolygu dros y misoedd nesaf i sicrhau ei fod yn hwyluso ein gwaith i ddatblygu polisiâu cadarn sy'n cael effaith gadarnhaol ar yr iaith a'i defnyddwyr. Yn dilyn hynny, cynigir mwy o hyfforddiant gweithdy i staff Llywodraeth Cymru ar gwblhau'r WLIA. Yn ddiweddar rydym hefyd wedi cyfrannu at adolygiad Comisiynydd y Gymraeg o'r prosesau WLIA ar draws sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru, ac rydym yn edrych ymlaen at weld yr argymhellion yn yr adroddiad terfynol pan gaiff ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

O ran adroddiad monitro blynyddol Llywodraeth Cymru ar ein cynllun iaith Gymraeg, fel y dywedais yn y cyfarfod, mae swyddogion wedi darparu cryn wybodaeth ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg fel rhan o'r ymchwiliad i'r Safonau y llynedd, yn ychwanegol at yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae swyddogion wrthi'n trafod sut mae gwella strwythurau adrodd yn y dyfodol o dan y Safonau Iaith newydd.

Cynllunio a'r Bil Cynllunio

Rydym wedi gwneud gwelliannau i'r Bil Cynllunio yng Nghyfnod 2 a fydd yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ystyriaeth mewn cynlluniau datblygu cenedlaethol, strategol a lleol. Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn parhau i weithio gyda'r holl bleidiau i sicrhau bod unrhyw welliannau pellach i'r Bil sy'n ymwneud â'r iaith yng Nghyfnod 3 yn adlewyrchu pryderon a sylwadau rhanddeiliaid a Phwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, a'u bod er budd cymunedau ledled Cymru. Bydd y Cynulliad yn cael y cyfle i bleidleisio ar yr holl welliannau yng Nghyfnod 3 ar 5 Mai.

Safonau'r Gymraeg

Cafodd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 24 Mawrth 2015, a daethant i rym ar 31 Mawrth 2015. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi amserlen ar ei gwefan yn manylu ar y broses ar gyfer gosod safonau ar gyrf.

Rydym yn rhagweld y bydd y Safonau yn dechrau cael eu gweithredu yn ystod mis Mawrth 2016. Felly y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu o dan y safonau fydd 2016-17, gyda sefydliadau yn debygol o gyhoeddi eu set gyntaf o adroddiadau yn ystod gwanwyn 2017. Os felly, ni fydd gennym ddata penodol ynghylch cydymffurfio â'r Safonau, neu'r defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg a gynigir drwy'r Safonau hyd nes y bydd y sefydliadau hynny yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol cyntaf i'r Comisiynydd yn 2017. Caiff data o'r fath eu casglu a'u cyflwyno i'r Comisiynydd fel rhan o ofynion cydymffurfio'r sefydliad â'r Safonau Cadw Cofnodion. Gellid cymharu data o'r fath a'u croesgyfeirio â'r data a gasglwyd trwy ddulliau eraill fel arolygon defnydd iaith a data rheoli mewnol i asesu defnydd.

Mae'r sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r set gyntaf o safonau wedi bod yn ddarostyngedig i gynlluniau iaith am nifer o flynyddoedd. Caiff cynlluniau eu monitro ar hyn o bryd gan Gomisiynydd y Gymraeg, a chyn hynny Bwrdd yr Iaith oedd yn gwneud. Drwy gasglu data ar gwynion, canfyddiadau ymchwiliadau i gwynion, a thrwy fonitro data a gasglwyd drwy adroddiadau blynyddol, mae gan y Comisiynydd gronfa sylfaenol gref o ddata ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gyrff cyhoeddus. Mae gennym hefyd ddata sylfaenol ar y defnydd o wasanaethau Cymraeg drwy'r arolygon defnydd iaith a gynhaliwyd yn 2004-06 ac yn 2013-15, ac o'r cyfrifiad.

Mae Bwrdd Rhaglen y Safonau Iaith yn ymwybodol o'r angen i sefydlu fframwaith gwerthuso cadarn ar gyfer y Safonau, ac mae'n gweithio gydag adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru ar y ffordd orau o gyflawni hyn.

Mae data ar y nifer o siaradwyr Cymraeg a gyflogir gan Lywodraeth Cymru ar gael, a byddai hefyd ar gael ar gyfer y sefydliadau eraill sy'n ddarostyngedig i'r Safonau drwy eu cydymffurfiaeth â Safonau Cadw Cofnodion. Ar hyn o bryd, mae canran y siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru (22.5%) yn cyfateb yn agos â chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (19%). Fel rhan o gydymffurfio â'r Safonau, caiff y swyddi gwag eu hasesu i benderfynu a yw sgiliau Cymraeg yn ofynnol.

Nodwn eich argymhelliad ynglŷn ag amserlen ar gyfer yr ail a'r trydydd set o safonau.

Bydd Gweinidogion Cymru yn dechrau'r broses o gyflwyno Rheoliadau i wneud y Safonau yn berthnasol i gyrff, yn amodol ar ail ymchwiliad y Comisiynydd i'r Safonau cyn diwedd 2015. Nid oes modd inni bennu amserlen fanylach nes inni dderbyn adroddiadau'r Comisiynydd a fydd yn ein helpu i ddeall yn well hyd a lled y gwaith.

O ran safonau i'r gyrff yn nhrydydd ymchwiliad y Comisiynydd, mae ei hamserlen arfaethedig yn caniatáu i swyddogion ddechrau creu Rheoliadau ar gyfer y gyrff hynny ddechrau 2016. Yn yr un modd â chylchoedd blaenorol o safonau, nid oes modd inni bennu amserlen fanylach heb weld adroddiadau'r Comisiynydd, ac ni allwn ragdybio eu cynnwys.

Y Gymraeg mewn Addysg

Adroddiad Sioned Davies

Wrth gynnal ei adolygiad annibynnol, ystyriodd yr Athro Donaldson adroddiadau pwysig nifer o adolygiadau annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn eu plith yr adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, dan gadeiryddiaeth yr Athro Sioned Davies. Adlewyrchir casgliadau'r Athro Donaldson yn ei adroddiad Dyfodol Llwyddiannus a gyhoeddwyd ar 25 Chwefror 2015.

Ar 4 Mawrth 2015, lansiodd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau y Ddadl Fawr ar addysg yng Nghymru. Bydd canlyniad y cam hwn o'r ddadl fawr yn llywio ymateb y Gweinidog i

argymhellion yr Athro Donaldson a fydd yn cael eu cyhoeddi yn yr haf. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y posibilrwydd o gyflymu rhai o'r argymhellion o ran Cymraeg ail iaith, cyn belled ag y cânt eu derbyn gan y Gweinidog.

Y Gymraeg fel Sgîl

Un o argymhellion allweddol adroddiadau yr Athro Davies a'r Athro Donaldson yw cael ffocws o'r newydd mewn ysgolion ar ddysgu Cymraeg fel ffordd o gyfathrebu yn bennaf, yn enwedig wrth baratoi ar gyfer y gweithle.

Penderfynodd Llywodraeth Cymru i aros am i adroddiad yr Athro Donaldson gael ei gyhoeddi cyn adolygu TGAU Cymraeg ail iaith. Nawr bod ei argymhellion yn hysbys, bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau gweithio gyda CBAC yn fuan ac â rhanddeiliaid allweddol eraill i fwrw ymlaen i ddiwygio cymwysterau yn y maes allweddol hwn, gan roi ystyriaeth ddyledus i argymhelliad yr Athro Donaldson i ailalinio cymwysterau yn y Gymraeg i bobl ifanc 16 oed â'r bwriad i ganolbwyntio ar siarad a gwranddo a defnyddio'r iaith yn y gweithle.

Capasiti i addysgu

Mae sicrhau bod nifer ddigonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, sydd â sgiliau Cymraeg o safon uchel a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu yn un o amcanion y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae hyfforddiant iaith ar gael i ymarferwyr drwy'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg.

Rhoddir ystyriaeth bellach i sicrhau pwll digonol o ymarferwyr i ddarparu cwricwlwm Cymraeg ail iaith newydd fel rhan o'n hymateb i adolygiad yr Athro Donaldson, adolygiad yr Athro Furlong o hyfforddiant cychwynnol athrawon ac fel rhan o'r Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg.

Cymraeg i Oedolion

Mae ein datganiad polisi *iaith fyw, iaith byw – Bwrw mlaen* yn nodi'n glir ein dymuniad i weld mwy o bobl yn magu hyder yn yr iaith Gymraeg er mwyn ei defnyddio yn eu bywydau bob dydd. Mae hyn yn cynnwys yr angen i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ddysgu ar y lefelau uwch a'r angen hefyd i ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg loywi a gwella eu sgiliau.

Cyhoeddwyd adroddiad y Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion, *Codi Golygon*, yn 2013 ac roedd yn cynnwys nifer o argymhellion i'r cyfeiriad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o wireddu argymhellion y Grŵp Adolygu, gan gynnwys yr argymhelliad cyntaf i sefydlu Endid Cenedlaethol i fod yn gyfrifol am arwain y sector yn strategol. Un o dasgau cyntaf yr Endid fydd lleihau nifer y darparwyr Cymraeg i Oedolion. Gobeithir y bydd hyn yn arwain at arbedion maint er mwyn sicrhau bod darpariaeth hyfyw a chynaliadwy ar gael i ddysgwyr ar bob lefel ac ar draws Cymru.

Gwasanaethau ar-lein

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am annog y sector preifat i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein. Yn ddiweddar, cynhaliodd y Comisiynydd adolygiad o wasanaethau Cymraeg mewn banciau, ac rydym yn croesawu ei hadroddiad a gyhoeddwyd ar 29 Ebrill 2015.

'Ysgogi'r prif gwmnïau technoleg' yw un o themâu Cynllun Gweithredu Technoleg a Chyfyngau Digidol Cymraeg Llywodraeth Cymru, ac yn y cyd-destun hwnnw rydym am weld darpariaeth fwy o wasanaethau ar-lein. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chwmnïau mawr megis Apple, Microsoft a Google ac rydym yn parhau i ohebu gyda chwmnïau rhyngwladol.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gall diffygion yn seilwaith technoleg Cymru fod yn rhwstr i ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg. Er enghraifft, nid oes technoleg llais-i-destun na 'AI' (dealltwriaeth artiffisial) Cymraeg, felly nid oes modd cael Siri, Cortana a Google Now yn Gymraeg eto.

Trwy ein grant Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg rydym wedi ariannu prosiectau technoleg iaith a fydd yn hwyluso datblygiad rhai o elfennau'r seilwaith hanfodol yma. Mae'r un her yn ein hwynebu wrth ystyried sefyllfa ieithoedd lleiafrifol Ewropeaidd eraill, felly rydym yn trafod cydweithredu drwy rwydweithiau Ewropeaidd (NPLD, Meta-Net, etc.)

Nifer y Siaradwyr Cymraeg sydd ar Gyrrff Cyhoeddus o Bwys

Yn sgil y Safonau a gaiff eu gosod yn fuan ar Weinidogion Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'r canllawiau ar gyfer swyddogion sy'n rheoli proses recriwtio penodiadau cyhoeddus wedi newid. Bellach, gofynnir i swyddogion gwblhau asesiad o'r effaith ar y Gymraeg a chadarnhau gyda'u Gweinidog (sy'n golygu cymeradwyo'r hysbyseb swydd, y fanyleb a'r strategaeth hysbysebu) eu bod wedi ystyried gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dylai hyn sicrhau bod y gofynion o ran yr iaith Gymraeg yn cael eu hystyried a'u hymgorffori lle bo angen i'r broses recriwtio.

2. Y broses o wneud penodiadau cyhoeddus amlwg yng Nghymru a chraffu yn hyn o beth

Mae'r adolygiad annibynnol o rôl a swyddogaethau'r Comisiynydd Plant wedi gwneud nifer o argymhellion, gan gynnwys un sy'n ymwneud â'r mater y mae'r Pwyllgor wedi gofyn imi ei ystyried. Mae Gweinidogion wrthi ar hyn o bryd yn trafod y materion hyn sy'n berthnasol i nifer o bortffolios ac nid wyf yn dymuno ymateb cyn cael gwybod canlyniad y trafodaethau hyn.

Yours sincerely



CARWYN JONES